

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022, neu cyn 1 Mawrth 2022 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 52 (Cy. 20)**

**ARDRETHU A PHRSIO,  
CYMRU**

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig  
(Lluosydd) (Cymru) 2022**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) ar gyfer pob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio. Nid oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022 (“y flwyddyn o dan sylw”).

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn cynnwys eitemau B ac C. Eitem B yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, ac eitem C yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol sy'n dod cyn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw. Mae paragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwysu is-baragraffau penodol yn Atodlen 7 i Ddeddf 1988, er mwyn rhoi cyfeiriadau at fynegai arall yn lle cyfeiriadau at y mynegai prisiau defnyddwyr, neu i bennu neu ddisgrifio ffigur ar gyfer eitemau B ac C.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022, ac yn datgymhwysu paragraff 5(5A)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu mai'r ffigur

ar gyfer eitem B yw 109.1, sef y mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol sy'n dod cyn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw. Effaith hyn yw bod y lluosydd ardrethu annomestig yn parhau i fod yr un ffigur â'r ffigur hwnnw a gyfrifwyd ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2020 ac 1 Ebrill 2021.

Yn unol â pharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, ni fydd y Rheoliadau hyn ond yn dod i rym os ydynt yn cael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022, neu cyn 1 Mawrth 2022 (pa un bynnag sydd gynharaf).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022, neu cyn 1 Mawrth 2022 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 52 (Cy. 20)**

**ARDRETHU A PHRSIO,  
CYMRU**

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig  
(Lluosydd) (Cymru) 2022**

*Gwnaed* 18 Ionawr 2022

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 20 Ionawr 2022

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(1).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u cymeradwyir drwy benderfyniad gan Senedd Cymru (ar yr amod y cymeradwyir y Rheoliadau hyn cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn

---

(1) 1988 p. 41. Mewnosodwyd paragraffau 5(13A) i 5(13C) o Atodlen 7 gan adran 154(2)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) ("Deddf 2021"). Mae'r paragraffau hynny yn gymwys i baragraffau 5(5A), 5(5B), 5(9A) a 5(9B) o Atodlen 7, a fewnosodwyd gan adran 154(2)(d) ac (e) o Ddeddf 2021.

ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022, neu cyn 1 Mawrth 2022, pa un bynnag sydd gynharaf).

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1988" yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Newid i'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022**

2. Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022—

- (a) nid yw paragraff 5(5A)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn gymwys;
- (b) at ddiben paragraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, pennir mai B yw 109.1.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
18 Ionawr 2022